

## **Arolygiad o Ysbyty (Dirybudd)**

Ysbyty Bronllys, Bwrdd Iechyd  
Addysgu Powys

Dyddiad arolygu: 29 a 30 Hydref  
2019

Dyddiad cyhoeddi: 31 Ionawr  
2020

Gellir darparu'r cyhoeddiad hwn a gwybodaeth arall gan AGIC mewn fformatau neu ieithoedd amgen ar gais. Bydd oedi byr wrth i ieithoedd a fformatau eraill gael eu cynhyrchu pan ofynnir amdanynt i ddiwallu anghenion unigol. Cysylltwch â ni am gymorth.

Bydd copïau o'r holl adroddiadau, pan gânt eu cyhoeddi, ar gael ar ein gwefan neu drwy gysylltu â ni:

Yn ysgrifenedig:

**Rheolwr Cyfathrebu  
Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru  
Llywodraeth Cymru  
Parc Busnes Rhydycar  
Merthyr Tudful  
CF48 1UZ**

Neu

**Ffôn: 0300 062 8163  
E-bost: [hiw@gov.wales](mailto:hiw@gov.wales)  
Gwefan: [www.agic.org.uk](http://www.agic.org.uk)**

## Cynnwys

1.	Yr hyn a wnaethom .....	5
2.	Crynodeb o'n harolygiad .....	6
3.	Yr hyn a nodwyd gennym.....	8
	Ansawdd profiad y claf .....	10
	Darparu gofal diogel ac effeithiol .....	17
	Ansawdd rheolaeth ac arweinyddiaeth .....	23
4.	Beth nesaf? .....	27
5.	Sut rydym yn arolygu ysbytai .....	28
	Atodiad A – Crynodeb o'r pryderon a gafodd eu datrys yn ystod yr arolygiad	29
	Atodiad B – Cynllun gwella uniongyrchol.....	30
	Atodiad C – Cynllun gwella.....	31

# Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru (AGIC) yw arolygiaeth a rheoleiddiwr annibynnol gofal iechyd yng Nghymru

## Ein diben

Gwneud yn siŵr bod pobl yng Nghymru yn derbyn gofal iechyd o ansawdd da

## Ein gwerthoedd

Rydym yn rhoi cleifion wrth wraidd yr hyn a wnawn. Rydym yn:

- Annibynnol
- Gwrthrychol
- Gofalgar
- Cydweithredol
- Awdurdodol

## Ein blaenoriaethau

Drwy ein gwaith, ein nod yw:

Rhoi sicrwydd:

Cynnig barn annibynnol ar ansawdd y gofal

Hybu gwelliant:

Annog gwelliant drwy lunio adroddiadau a rhannu arfer da

Dylanwadu ar bolisi a safonau:

Defnyddio'r hyn rydym yn ei ganfod i ddylanwadu ar bolisi, safonau ac arfer

# 1. Yr hyn a wnaethom

Cwblhaodd Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru (AGIC) arolygiad dirybudd o Ysbyty Bronllys ym Mwrdd Iechyd Addysgu Powys ar 29 a 30 Hydref 2019. Ymwelwyd â'r safleoedd a'r wardiau canlynol yn yr ysbyty yn ystod yr arolygiad hwn:

- Ward Llewellyn

Roedd ein tîm ar gyfer yr arolygiad yn cynnwys dau o arolygwyr AGIC, un adolygwr cymheiriaid clinigol ac un adolygwr lleyg. Arweiniwyd yr arolygiad gan un o reolwyr arolygu AGIC.

Ystyriodd AGIC i ba raddau y mae'r gwasanaeth yn cyrraedd y Safonau Iechyd a Gofal (2015).

Ceir rhagor o fanylion am y ffordd rydym yn cynnal arolygiadau o ysbytai yn Adran 5 ac ar ein gwefan.

## 2. Crynodeb o'n harolygiad

Gwelsom fod y staff ar y ward yn ymrwymedig i ddarparu gofal diogel ac effeithiol i'r cleifion.

Mynegodd y cleifion y cawsom sgwrs â nhw yn ystod yr arolygiad foddhad â'r gofal a'r driniaeth a dderbyniwyd.

Gwelsom drefniadau rheoli ac arwain da, gyda'r staff yn sôn yn gadarnhaol am y cymorth y maent yn ei gael gan reolwr y ward.

Fodd bynnag, gwelsom beth tystiolaeth nad oedd y bwrdd iechyd yn cydymffurfio'n llawn â'r holl Safonau Iechyd a Gofal ym mhob maes.

Nodwyd gennym fod y gwasanaeth yn gwneud y canlynol yn dda:

- Ymgysylltu â'r staff
- Gwaith amlddisgyblaethol
- Darparu bwyd a diod
- Ystafell gofal lliniarol
- Lofa ac ardal fwyta ddynodedig
- Asesu, cynllunio gofal a chadw cofnodion
- Rheoli meddyginiaeth
- Trosolwg gan y rheolwyr
- Archwiliadau clinigol
- Hyfforddiant, cymorth a goruchwyliaeth i'r staff.

Argymhellwn y gallai'r gwasanaeth wella'r canlynol:

- Darpariaeth yn Gymraeg
- Asesu poen

- Storio cadeiriau olwyn a gwahanu cyfarpar glân a brwnt
- Aseidiadau risg cyffredinol
- Gwaith cynnal a chadw mewn rhai ardaloedd
- Recriwtio staff

### 3. Yr hyn a nodwyd gennym

#### Cefndir y gwasanaeth

Mae Bwrdd Iechyd Addysgu Powys yn fwrdd iechyd gwledig sy'n darparu gwasanaethau yn lleol, drwy feddygon teulu a gwasanaethau gofal sylfaenol eraill, ysbytai cymunedol a gwasanaethau cymunedol. Mae Powys yn darparu gwasanaethau i thua 133,000 o breswylwyr dros ardal ddaearyddol fawr a gwledig.

Nid oes gan y bwrdd iechyd Ysbyty Cyffredinol Dosbarth, ond mae'n talu i breswylwyr Powys gael gwasanaethau arbenigol mewn ysbytai y tu allan i'r sir. Ymddiriedolaeth GIG Ysbytai Amwythig a Telford sy'n cynrychioli'r gyfran fwyaf o weithgarwch a gomisiynir ac Ymddiriedolaeth GIG Dyffryn Gwy sydd â'r gyfran fwyaf ond un. Yng Nghymru, mae'r bwrdd iechyd yn prynu gwasanaethau gan Fyrddau Iechyd Prifysgol Hywel Dda, Aneurin Bevan, Bae Abertawe a Chwm Taf Morgannwg, ac eraill mewn cyfrannau llai.

Mae Bronllys yn ysbyty cymunedol sydd wedi'i leoli ar gyrion Aberhonddu. Mae dwy ward yn yr ysbyty, sef Ward Llewellyn, sy'n ward gyffredinol gyda 15 o welyau a arweinir gan feddygon teulu, a Ward Felindre, sy'n uned cleifion mewnol iechyd meddwl. Roedd yr arolygiad hwn yn canolbwyntio ar y gwasanaethau a ddarperir ar Ward Llewellyn.

Caiff gwelyau ar Ward Llewellyn eu defnyddio mewn ffordd hyblyg, yn ôl y galw. Mae meddygon teulu yn dueddol o anfon cleifion yno o'r gymuned a Meddygon Ymgynghorol o'r Ysbytai Cyffredinol Dosbarth, sef Henffordd a'r Fenni yn bennaf. Caiff cleifion eu derbyn am amrywiaeth o gyflyrau gan gynnwys cyflyrau meddygol, adsefydlu ar ôl llawdriniaeth, rheoli clefyd Parkinson a gofal lliniarol. Roedd ystafell gofal lliniarol ar y ward a gafodd ei hariannu drwy roddion ariannol a gweithgareddau codi arian a drefnwyd gan Gynghrair Cyfeillion yr ysbyty ac arian elusennol y bwrdd iechyd. Mae'r ystafell, a elwir yn Mynydd View, yn cynnig lle i gefnogi cleifion ar ddiwedd eu bywydau, a'u teuluoedd a'u hanwyliaid. Mae gan yr ystafell wely breifat gyfleusterau en-suite, cegin fach a mynediad i'r ardd.

Roedd y ward wedi'i chefnogi'n dda gan dîm amlddisgyblaethol sy'n ymgorffori Ffisiotherapi, Therapi Galwedigaethol, Deieteg, Therapi Lleferydd ac Iaith, Nyrs Arbenigol Clefyd Parkinson, Nyrs Arbenigol Anadlu, Hyfywedd Meinwe, Nyrs Arbenigol Anymataliaeth, Tîm Iechyd Meddwl a Gweithwyr Cymdeithasol.

Mae'r gwasanaethau eraill a ddarperir yn yr ysbyty yn cynnwys y canlynol:

- Podiatreg



- Rhaglen Cwmpiadau
- Ffisiotherapi a Therapi Galwedigaethol
- Canolfan Rheoli Poen a Blinder
- Adran iechyd galwedigaethol
- Anabledd Dysgu – gwasanaeth cymunedol yn unig
- Seicoleg
- Iechyd y Cyhoedd
- Cleifion allanol
- Ysbyty Dydd – ar agor ar ddydd Llun, dydd Mawrth a dydd Iau rhwng 10.00 a 16.00 ar hyn o bryd.

## Ansawdd profiad y claf

*Cawsom sgwrs â'r cleifion, eu perthnasau, eu cynrychiolwyr a/neu eu heiriolwyr (lle roedd hynny'n briodol) er mwyn sicrhau bod safbwynt y claf yn ganolog i'n dull o arolygu.*

Mynegodd y cleifion y cawsom sgwrs â nhw yn ystod yr arolygiad foddhad â'r gofal a'r driniaeth a dderbyniwyd. Dywedodd y cleifion wrthym fod y staff yn garedig ac yn ofalgar.

Gwelsom ryngweithio da rhwng y staff a'r cleifion, gyda'r staff yn dangos parch wrth gefnogi'r cleifion, ac yn diogelu eu hurddas.

Anogwyd y cleifion i newid o'u dillad nos i'w dillad dydd er mwyn cynnal eu hurddas a hybu eu hannibyniaeth, a chawsant gymorth i wneud hyn.

Gwelsom fod y cleifion yn gallu symud yn rhydd o gwmpas ardal y ward.

Gwelsom y staff yn ymdrin â'r cleifion mewn modd digynnwrf a oedd yn tawelu'r meddwl.

Roedd amgylchedd y ward yn lân ac yn daclus.

Yn ystod yr arolygiad, gwnaethom ddsbarthu holiaduron AGIC i gleifion a gofalwyr er mwyn cael eu barn ar safon y gofal a ddarperir i gleifion yn yr ysbyty. Cwblhawyd cyfanswm o 13 o holiaduron. Gwnaethom hefyd siarad â nifer o gleifion yn ystod yr arolygiad.

Roedd y rhan fwyaf o'r cleifion a gwblhaodd holiadur wedi bod ar y ward am fwy na phythefnos.

Roedd y cleifion wedi sgorio'r gofal a'r driniaeth a ddarparwyd yn ystod eu harhosiad allan o 10, a'r sgôr a roddwyd ar gyfartaledd oedd 9.1 allan o 10. Y sgôr isaf a roddwyd oedd 7 allan o 10.

## Cadw'n iach

Gwelsom fod y cleifion yn cael eu cynnwys yn y gwaith o gynllunio a darparu eu gofal eu hunain cymaint â phosibl. Pan oedd y cleifion yn methu â gwneud

penderfyniadau drostynt eu hunain, oherwydd problemau gyda'r cof, gwelsom fod y staff yn ymgynghori â'r perthnasau ac yn eu hannog i helpu i wneud penderfyniadau am y gofal a ddarperir yn unol â'r Safonau Iechyd a Gofal.

Gwelsom ryngweithio da rhwng y staff a chleifion, gyda'r staff yn ymdrin ag anghenion cleifion mewn modd gochelgar a phroffesiynol. Gwelsom y staff yn treulio amser gyda'r cleifion ac yn eu hannog i wneud pethau drostynt eu hunain, gan gynnal eu hannibyniaeth. Gwelsom y staff hefyd yn cynnwys cleifion yn y broses o wneud penderfyniadau am weithgareddau dyddiol.

Roedd y Cynllun Pili-Pala<sup>1</sup> ar waith ar y ward, lle roedd symbolau pili-palod yn cael eu defnyddio er mwyn adnabod cleifion â diagnosis o ddementia neu nam gwybyddol yr oedd angen cymorth ychwanegol arnynt neu ddull gwahanol o ddarparu gofal. Roedd symbolau eraill hefyd yn cael eu defnyddio i adnabod y cleifion hynny yr oedd angen cymorth ychwanegol arnynt, megis caeadau o liwiau gwahanol ar jygiau ar gyfer y cleifion hynny yr oedd angen cymorth arnynt wrth fwyta ac yfed.

Roedd llofa/ardal fwyta i gleifion ar y ward, a dywedodd y cleifion y gwnaethom siarad â nhw eu bod yn cael budd o gyfleusterau o'r fath, sy'n annog symudedd ac yn helpu i gynnal annibyniaeth. Roedd yr ardal hon hefyd yn cael ei defnyddio ar gyfer gweithgareddau. Gwelsom rai gweithgareddau yn cael eu cynnal yn ystod yr arolygiad, wedi'u hwyluso gan weithwyr cymorth gofal iechyd.

## **Gofal gydag urddas**

Gwelsom fod cleifion yn cael eu trin ag urddas a pharch gan y tîm staff.

Gwelsom y staff yn ymddwyn yn garedig ac yn barchus tuag at gleifion. Gwelsom y staff yn gwneud ymdrech i ddiogelu preifatrwydd ac urddas y cleifion wrth roi

---

<sup>1</sup> Nod Cynllun Pili-Pala yw gwella diogelwch a llesiant cleifion drwy addysgu'r staff i ymateb i'r bobl â nam ar y cof mewn ffordd gadarnhaol a phriodol, ac mae'n galluogi'r cleifion hynny sy'n dioddef o ddementia, dryswch neu anghofrwydd i ofyn am yr ymateb hwnnw drwy ddefnyddio symbol pili-pala disylw yn eu nodiadau.

cymorth gydag anghenion gofal personol. Cadarnhaodd y cleifion fod y staff yn garedig ac yn sensitif wrth ofalu amdanynt.

Ymddengys fod y cleifion yn cael gofal da, gyda'r staff yn rhoi sylw penodol i ymddangosiad a dillad y bobl. Gwelsom fod y cleifion yn cael cymorth i newid o'u dillad nos yn ystod y dydd er mwyn cynnal eu hurddas, hybu eu hannibyniaeth, helpu â'u hadferiad a pharatoi ar gyfer eu rhyddhau o'r ysbyty'n ddiogel.

Roedd yr amgylchedd ar y ward yn lân ac yn daclus ar y cyfan, gan ychwanegu at ymdeimlad y cleifion o lesiant. Fodd bynnag, gwelwyd bod angen trwsio rhai o fframiau'r ffenestri yn y coridor sy'n arwain at y ward. Cawsom wybod bod yr adran cynnal a chadw yn ymwybodol o'r mater, a bod disgwyl iddi ddechrau ar y gwaith trwsio yn y dyfodol agos. Gwnaethom nodi hefyd fod dolenni ar goll o rai o'r ffenestri yn yr heulfan, a oedd yn golygu na ellid cau'r ffenestri yn sownd, gan arwain at ddrafftiau a thymereddau oer. Nodwyd hefyd fod rhai ardaloedd o dir yr ysbyty wedi gordyfu ac roedd angen rhoi sylw iddynt.

Gwnaethom nodi bod y staff yn gwisgo esgidiau glaw gwyrdd tebyg i'r rhai a ddefnyddir yn y cartref/ardd wrth helpu cleifion i gael cawod yn yr ystafell gawod/ystafell wlyb. Yn ein barn ni, nid yw defnyddio'r esgidiau glaw hyn yn briodol mewn amgylchedd clinigol/gofal, ac rydym yn argymhell bod esgidiau mwy priodol yn cael eu hystyried.

#### Yr hyn sydd angen ei wella

Mae'n rhaid i'r bwrdd iechyd wneud y canlynol:

- Trwsio fframiau'r ffenestri yn y coridor sy'n arwain at y ward
- Trwsio'r ffenestri yn yr heulfan
- Sicrhau bod tir yr ysbyty yn cael ei gynnal a'i gadw'n addas.

#### Gwybodaeth ar gyfer cleifion

Roedd gwybodaeth hybu iechyd i gleifion a'u teuluoedd/gofalwyr yn cael ei harddangos ac roedd ar gael ar y ward. Fodd bynnag, roedd y wybodaeth a ddarparwyd yn Saesneg yn bennaf, ac felly mae'n rhaid rhoi mesurau ar waith i sicrhau bod gwybodaeth ar gael yn Gymraeg hefyd.

Roedd bwrdd Cypolwg ar Statws Cleifion (PSAG)<sup>2</sup> wedi'i leoli yng ngweithfan y nyrsys. Roedd y bwrdd wedi'i leoli mewn ffordd benodol er mwyn cadw gwybodaeth y cleifion yn gyfrinachol.

### Yr hyn sydd angen ei wella

Mae'n rhaid i'r bwrdd iechyd sicrhau bod gwybodaeth ar gyfer cleifion ar gael yn Gymraeg.

### Cyfathrebu'n effeithiol

Drwy gydol ein hymweliad arolygu, gwelsom aelodau o'r staff yn cyfathrebu â'r cleifion mewn modd digynnwrf ac urddasol. Cyfeiriwyd at y cleifion gan ddefnyddio eu dewis enwau. Gwelwyd y staff yn cyfathrebu â'r cleifion mewn modd anogol a chynhwysol.

Roedd yr holl gleifion a gwblhaodd holiadur yn cytuno bod y staff bob amser yn gwrtais ac yn gwrando arnyn nhw a'u teuluoedd a'u ffrindiau. Roedd bron pob un o'r cleifion a gwblhaodd holiadur yn cytuno bod y staff yn cyfeirio atynt gan ddefnyddio eu dewis enw, ac nid oedd neb yn anghytuno. Ymysg y sylwadau roedd y canlynol:

*"Mae'r cynorthwywyr gofal yn wych - tynnu coes da".*

Dywedodd y rhan fwyaf o'r cleifion wrthym fod y staff wedi siarad â nhw am eu cyflyrau meddygol ac wedi eu helpu i'w deall. Dywedodd un perthynas a oedd yn ymweld â'r gwasanaeth wrthym nad yw bob amser yn cael gwybod am newidiadau o ran cyflwr a/neu ddarpariaeth gofal ei berthynas, am nad yw bob amser yn gallu bod yn bresennol yn ystod ymweliadau gan y meddyg.

---

<sup>2</sup> Mae bwrdd Cypolwg ar Statws Cleifion yn ffordd glir a chyson o arddangos gwybodaeth cleifion mewn wardiau ysbyty.

### Yr hyn sydd angen ei wella

Mae'n rhaid i'r bwrdd iechyd gymryd camau i sicrhau, lle y bo'n briodol, fod perthnasau yn cael gwybod am newidiadau o ran cyflwr a/neu ddarpariaeth gofal y claf, os na allant fod yn bresennol yn ystod ymweliadau gan y meddyg.

## Gofal amserol

Gwelsom fod prosesau asesu a chynllunio gofal da ar waith ar y cyfan.

Roedd tîm y ward yn gweithio'n dda gydag aelodau eraill o'r tîm gofal iechyd amlddisgyblaethol er mwyn rhoi gofal unigol i gleifion yn ôl eu hanghenion wedi'u hasesu. Roedd cyfarfodydd tîm amlddisgyblaethol yn cael eu cynnal yn wythnosol ac roedd cofnodion yn cael eu cadw. Roedd prosesau cadarn ar waith ar gyfer cyfeirio newidiadau i anghenion cleifion at weithwyr proffesiynol eraill megis y nyrs hyfywedd meinwe arbenigol, deietegydd, a therapydd lleferydd ac iaith.

Gwelsom fod systemau cynllunio rhyddhau digonol ar waith, gyda chleifion yn cael eu hasesu gan weithwyr proffesiynol eraill, megis ffisiotherapyddion, therapyddion galwedigaethol a gweithwyr cymdeithasol, cyn gadael yr ysbyty. Gwnaethom archwilio sampl o gofnodion cleifion a gwelsom fod y dogfennau trosglwyddo gofal yn gynhwysfawr. Fodd bynnag, gwelsom fod oedi cyn i rai cleifion gael eu rhyddhau, a hynny'n bennaf o ganlyniad i brinder darpariaeth gofal cymdeithasol addas.

### Yr hyn sydd angen ei wella

Mae'n rhaid i'r bwrdd iechyd barhau i ymgysylltu â'r awdurdod lleol gyda'r nod o sicrhau bod mwy o ddarpariaeth gofal cymdeithasol addas ar gael er mwyn hwyluso'r broses o ryddhau cleifion o'r ysbyty yn amserol.

## Gofal unigol

### Cynllunio gofal i hybu annibyniaeth

Gwelsom fod y broses cynllunio gofal yn ystyried safbwyntiau cleifion ynglŷn â'r ffordd yr oeddent am gael gofal. Drwy ein sgysiau â'r staff a'n harsylwadau, cadarnhawyd gennym fod cleifion a/neu eu cynrychiolwyr enwebedig yn cymryd rhan mewn penderfyniadau ynglŷn â'u hanghenion gofal dyddiol. Dywedodd y cleifion wrthym hefyd fod y staff yn eu helpu ac yn darparu gofal pan fo angen.

Gwelsom y staff yn annog ac yn helpu cleifion i fod mor annibynnol â phosibl. Er enghraifft, gwelsom fod y staff yn annog y cleifion i gerdded ac yn eu helpu i fwyta ac yfed yn annibynnol.

Dywedodd pob un o'r cleifion wrthym eu bod yn cael dewis gan y staff o ran pa ddull y gallent ei ddefnyddio i fynd i'r toiled, ac roedd pawb yn cytuno bod y staff yn helpu gyda'u hanghenion toiled pan oedd angen mewn modd sensitif fel nad oeddent yn teimlo embaras.

Cadarnhaodd pob un o'r cleifion a gwblhaodd yr holiadur fod ganddynt fotwm galw am nyrs, ac roedd pawb yn cytuno y byddai'r staff yn dod atynt pan fyddent yn defnyddio'r botwm galw.

### Hawliau pobl

Gwelsom fod y staff yn rhoi gofal mewn ffordd a oedd yn hyrwyddo ac yn diogelu hawliau'r cleifion.

Gwelsom y staff yn diogelu preifatrwydd ac urddas y cleifion wrth ofalu amdanynt. Er enghraifft, roedd llenni yn cael eu defnyddio o amgylch ardaloedd gwely unigol ac roedd drysau i ystafelloedd sengl yn cael eu cau pan oedd gofal yn cael ei roi.

Gwelsom fod asesiadau o Drefniadau Diogelu wrth Amddifadu o Ryddid (DoLS)<sup>3</sup> yn cael eu cynnal yn ôl yr angen. Fodd bynnag, gwelsom fod cofnodion yr asesiadau o alluedd meddyliol yn anghyson.

Gwelsom fod y ffurflenni Peidiwch â Dadebru (DNAR)<sup>4</sup> wedi cael eu cwblhau'n briodol lle bo angen.

---

<sup>3</sup> Mae trefniadau diogelu wrth amddifadu o ryddid (DoLS) yn rhan o Ddeddf Galluedd Meddyliol 2005 sy'n fodd cyfreithlon i amddifadu rhywun o'i ryddid mewn ysbyty neu gartref gofal, os yw hynny er ei fudd pennaf ac os mai hon yw'r ffordd leiaf cyfyngol o gadw'r person yn ddiogel rhag niwed.

<sup>4</sup> Caiff asesiadau Peidiwch â Dadebru eu cynnal gan feddyg, ac maent yn dweud wrth y tîm meddygol i beidio â rhoi cynnig ar ddadebru cardiobwlmonaidd (CPR). Mae'r ffurflen asesu wedi'i llunio i'w hadnabod a'i dilysu yn hawdd, gan alluogi gweithwyr gofal iechyd proffesiynol i wneud penderfyniadau cyflym am sut i drin claf.

## Yr hyn sydd angen ei wella

Mae'n rhaid i'r bwrdd iechyd sicrhau bod y staff yn gyson â'r broses ar gyfer asesiadau galluedd meddyliol a'u bod yn cwblhau dogfennaeth briodol ar gyfer hyn.

## Gwrando a dysgu o adborth

Roedd cleifion a'u cynrychiolwyr yn cael cyfleoedd i roi adborth ar eu profiad o'r gwasanaethau a ddarparwyd, drwy drafodaethau wyneb yn wyneb â'r staff.

Roedd systemau da ar waith i reoli cwynion a dywedodd y staff wrthym fod nifer y cwynion a ddaeth i law am y gwasanaeth yn isel.

Roedd gweithdrefn gwyno ffurfiol ar waith a oedd yn cydymffurfio â phroses Gweithio i Wella GIG Cymru.<sup>5</sup> Roedd gwybodaeth ar gael ar ffurf posteri a thafleuni a oedd yn cynghori cleifion a/neu berthnasau ynglŷn â sut i wneud cwyn.

---

<sup>5</sup> Mae Gweithio i Wella yn broses o ymdrin â Chwynion, Honiadau a Digwyddiadau a elwir gyda'i gilydd yn "Bryderon". Mae hwn yn newid diwylliannol sylweddol i'r GIG yng Nghymru o ran y ffordd y mae'n ymdrin â phethau sy'n mynd o chwith, gan gyflwyno un dull cyson o raddio pryderon ac ymchwilio iddynt, yn ogystal â bod yn fwy agored a chynnwys y person sy'n codi'r pryder.



## Darparu gofal diogel ac effeithiol

*Ystyriwyd i ba raddau y mae gwasanaethau'n darparu gofal diogel a dibynadwy o ansawdd uchel sy'n canolbwyntio ar gleifion unigol.*

Nodwyd gennym fod y tîm o staff yn ymrwymedig i ddarparu gofal diogel ac effeithiol i'r cleifion.

Roedd offer addas ar gael ac yn cael eu defnyddio er mwyn helpu i atal cleifion rhag datblygu briwiau pwyso, ac atal cleifion rhag syrthio.

Roedd y ward yn lân ac yn daclus ar y cyfan ac roedd trefniadau ar waith i leihau croes-heintio.

Roedd prosesau rheoli meddyginiaeth ffurfiol ar waith.

Roedd anghenion gofal y cleifion wedi'u hasesu gan y staff ac roedd y staff yn monitro'r cleifion er mwyn hyrwyddo eu llesiant a'u diogelwch.

## Gofal diogel

### Rheoli risg a hybu iechyd a diogelwch

Gwelsom fod y ward yn cael ei chynnal a'i chadw'n dda a bod systemau ar waith i roi gwybod am beryglon amgylcheddol yr oedd angen rhoi sylw iddynt a'u hunioni. Dywedwyd wrthym fod tîm cynnal a chadw'r ysbyty yn ymatebol iawn ac yn ymdrin ag unrhyw waith trwsio heb oedi diangen.

Ar y cyfan, roedd y ward yn glir rhag unrhyw beryglon i ddiogelwch cleifion, ymwelwyr a staff. Fodd bynnag, gwnaethom nodi bod cadeiriau olwyn yn cael eu storio yn y coridor sy'n arwain at y ward, a allai greu risg o faglu.

Roedd archwiliadau clinigol ac asesiadau risg yn cael eu cynnal yn rheolaidd er mwyn lleihau'r risg o niwed i gleifion a staff, ac roedd y canlyniadau yn cael eu harddangos ar hysbysfyrddau ar y ward. Fodd bynnag, nid oedd asesiadau risg amgylcheddol mwy cyffredinol wedi cael eu cynnal am fwy na 12 mis. Cawsom wybod gan reolwr y ward ei fod yn aros am ganllawiau pellach gan y bwrdd iechyd mewn perthynas â hyn a bod oedi wedi bod oherwydd newidiadau o ran yr uwch-reolwyr.

## Yr hyn sydd angen ei wella

Mae'n rhaid i'r bwrdd iechyd sicrhau'r canlynol:

- Nad yw cadeiriau olwyn yn cael eu storio yn y coridor sy'n arwain at y ward
- Bod asesiadau risg amgylcheddol cyffredinol yn cael eu cynnal yn rheolaidd.

## Atal briwiau pwysu a niwed i feinweoedd

Roedd y staff yn asesu cleifion mewn perthynas â'u risg o ddatblygu niwed i'w croen oherwydd briwiau pwysu. Roeddem hefyd yn gallu cadarnhau bod y staff yn cymryd camau priodol er mwyn atal cleifion rhag datblygu briwiau pwysu a niwed i feinwe'r croen.

Gwnaethom edrych ar sampl o gofnodion gofal a chadarnhau bod asesiadau risg ysgrifenedig wedi cael eu cwblhau gan ddefnyddio adnodd asesu nyrsio cydnabyddedig. Gwelsom hefyd fod y cofnodion monitro wedi cael eu cwblhau, gan ddangos bod y staff yn chwilio am arwyddion o friwiau pwysu ar groen y cleifion yn rheolaidd. Roedd offer lleddfu pwysau addas ar gael ac yn cael eu defnyddio er mwyn helpu i atal cleifion rhag datblygu briwiau pwysu.

Roedd y cofnodion monitro a welsom yn dangos bod y cleifion wedi cael cymorth neu wedi cael eu hannog i symud safle tra eu bod yn y gwely neu mewn cadair freichiau yn rheolaidd. Gwelsom hefyd y staff yn helpu ac yn annog y cleifion i symud o gwmpas amgylchedd y ward. Mae'r ymyriadau nyrsio hyn yn bethau sy'n helpu i leihau risg y cleifion o ddatblygu briwiau pwysu.

## Atal cwmpadau

O archwilio sampl o ffeiliau gofal unigol, gwelsom fod asesiadau'n cael eu cynnal er mwyn lleihau'r risg o gwmpo ac roedd camau cyflym yn cael eu cymryd mewn ymateb i hynny.

## Atal a rheoli heintiau

Roedd polisi rheoli heintiau cynhwysfawr ar waith a gwelsom fod archwiliadau rheolaidd yn cael eu cynnal er mwyn sicrhau bod y staff yn cadw at y polisi ac egwyddorion arfer da.

Roedd canlyniadau archwiliad rheoli heintiau yn cael eu harddangos ar hysbysfwrdd ar y ward.

Roedd cyfarpar diogelu personol, megis menig a ffedogau untro, ar gael i'r staff er mwyn lleihau achosion o groes-heintio, ac roeddent yn cael eu defnyddio. Roedd cyfleusterau golchi a sychu dwylo ar gael. Gwelsom hefyd fod mannau diheintio'r dwylo wedi eu lleoli'n strategol wrth ymyl mynedfeydd/allanfeydd ac ddefnydd y staff ac ymwelwyr, er mwyn lleihau'r risg o groes-heintio.

Roedd amgylchedd y ward yn lân ac yn daclus ar y cyfan. Fodd bynnag, gwelsom fod rhai eitemau brwnt o gyfarpar yn cael eu storio gydag eitemau glân yn un o'r ystafelloedd storio ar y ward. Mae'r arfer hwn yn cynyddu'r risg o groes-heintio ac mae'n rhaid rhoi'r gorau i hyn.

Roedd pob claf a gwblhaodd holiadur o'r farn bod y ward yn lân ac yn daclus. Rhai o'r sylwadau oedd:

*"Mae'r ysbyty yn wych - glân a chyfeillgar".*

*"Mae'r staff bob amser yn lân".*

#### Yr hyn sydd angen ei wella

Mae'n rhaid i'r bwrdd iechyd sicrhau nad yw eitemau brwnt o gyfarpar yn cael eu storio gydag eitemau glân er mwyn lleihau'r risg o groes-heintio.

#### Maeth a hydradu

Gwelsom fod anghenion bwyta ac yfed y cleifion wedi cael eu hasesu. Gwelsom hefyd y staff yn helpu cleifion i fwyta ac yfed mewn modd urddasol a phwylllog.

Roedd hylifau ar gael i'r cleifion, gyda jygiau dŵr wrth erchwyn y gwely.

Gwnaethom edrych ar sampl o gofnodion gofal, a gwelsom fod siartiau monitro yn cael eu defnyddio lle'r oedd angen gwneud hynny, er mwyn sicrhau bod y cleifion yn cael hylifau a maeth a oedd yn briodol i'w hanghenion.

Roedd y ward yn hyrwyddo adegau bwyd a ddiogelir. Roedd hyn yn sicrhau na tharfwyd ar y cleifion yn ddiangen yn ystod prydau bwyd er mwyn sicrhau eu bod yn cael digon o faeth a hylif. Fodd bynnag, anogwyd perthnasau i ymweld adeg prydau bwyd er mwyn helpu a chefnogi'r cleifion i fwyta, lle y bo'n briodol.

Gwelsom y prydau amser cinio'n cael eu gweini a gwelsom y staff yn helpu'r cleifion mewn ffordd ddigynnwrf, bwylllog ac urddasol gan roi digon o amser iddynt gnoi a llyncu eu bwyd. Hefyd, gwelsom y staff yn annog y cleifion a'u helpu i fwyta'n annibynnol. Dywedodd pob un o'r cleifion a lenwodd holiadur eu bod yn cael digon o amser i fwyta eu bwyd wrth eu pwysau eu hunain, ac roeddent yn

cytuno y byddai'r staff yn eu helpu i fwyta ac yfed petai angen; roedd yr holl gleifion yn cytuno bod dŵr o fewn cyrraedd bob amser.

Roedd y prydau bwyd wedi'u cyflwyno'n dda yn ôl y golwg ac yn ymddangos yn flasus. Dywedodd y cleifion wrthym fod y bwyd yn dda iawn.

Roedd weips dwylo ar gael a gwelwyd y staff yn rhoi'r cyfle i'r cleifion lanhau eu dwylo cyn ac ar ôl bwyta eu pryd o fwyd.

### **Rheoli meddyginiaethau**

Gwelsom feddyginiaeth yn cael ei rhoi i gleifion ac roedd y broses yn unol â pholisi'r bwrdd iechyd. Gwelsom y staff yn mynd ati i roi meddyginiaeth mewn ffordd bwyllog, gan gymryd yr amser i sicrhau bod cleifion yn gallu cymryd eu meddyginiaeth heb bryderu na mynd yn ofidus.

Roedd fferylllydd yn ymweld â'r ward deirgwaith yr wythnos, a thechnegydd fferyllfa ddwywaith yr wythnos, er mwyn cynnal archwiliadau meddyginiaeth a chynnig arweiniad a chymorth i'r staff.

Nid oedd unrhyw gleifion a oedd yn cael gofal ar adeg yr arolygiad yn hunanfeddyginiaethu, ac nid oedd unrhyw bolisi ffurfiol ar waith i gefnogi hyn. Fodd bynnag, rhoddodd aelod o'r staff enghraifft o glaf a oedd yn aros i gael ei ryddhau i fynd adref a oedd yn cael problemau wrth hunanfeddyginiaethu. Roedd cynllun pwrpasol wedi cael ei lunio a chytunwyd arno gan staff y ward, y fferyllfa a'r claf. Roedd canllawiau ysgrifenedig wedi cael eu drafftio ac roedd y claf yn cael ei oruchwylio wrth hunanfeddyginiaethu er mwyn sicrhau ymarfer diogel cyn cael ei ryddhau.

Gwelsom dystiolaeth bod cynnwys y troli argyfwng/trawiad ar y galon yn cael ei archwilio'n rheolaidd a bod unrhyw eitemau sydd wedi mynd heibio'u dyddiadau dod i ben yn cael eu newid.

#### **Yr hyn sydd angen ei wella**

Mae'n rhaid i'r bwrdd iechyd lunio polisi er mwyn cefnogi cleifion i hunanfeddyginiaethu.

### **Diogelu plant a diogelu oedolion sy'n wynebu risg**

Roedd polisiau a gweithdrefnau diogelu ysgrifenedig ar waith ac roedd y staff wedi cael hyfforddiant priodol ar y pwnc hwn.

Dywedwyd wrthym nad oedd unrhyw faterion diogelu cyfredol ar y ward ar adeg yr arolygiad.

### **Dyfeisiau, offer a systemau diagnostig meddygol**

Roedd amrywiaeth o offer meddygol ar gael ar y ward ac roedd yr offer yn cael eu cynnal a'u cadw'n briodol ac roedd cyfarpar cludadwy yn cael ei brofi yn ôl y gofyn.

## **Gofal effeithiol**

### **Gofal diogel a chlinigol effeithiol**

Gwelwyd tystiolaeth o weithio amlddisgyblaethol da iawn rhwng y staff nyrsio a'r staff meddygol. Roedd meddygon teulu yn ymweld â'r ward ddwywaith yr wythnos er mwyn archwilio cleifion, ac roeddent yn ymweld â'r ward bob diwrnod arall yn ôl yr angen. Dywedwyd wrthym fod mynediad da at wasanaethau meddyg teulu yn ystod y nos ac ar y penwythnos.

Gwelsom fod y ddogfennaeth Asesu Nyrsio Oedolion wedi'i chwblhau'n llawn ar adeg derbyn pob claf.

Gwelsom fod bwndeli gofal, sy'n gysylltiedig â'r system Sgoriau Rhybudd Cynnar Cenedlaethol (NEWS)<sup>6</sup>, yn cael eu defnyddio fel ffordd strwythuredig o wella prosesau gofal a chanlyniadau i gleifion o ran atal briwiau pwyso, sicrhau maeth digonol a nodi cleifion sy'n wynebu risg o waethygu drwy salwch aciwt neu sepsis.

Gwelsom fod prosesau a systemau cynllunio gofal da ar waith ar y cyfan. Gwelsom fod y broses cynllunio gofal yn ystyried safbwyntiau cleifion ynglŷn â'r ffordd roeddent am gael gofal.

Roedd cynlluniau gofal rheoli poen wedi cael eu llunio ac roedd y cleifion yn cael cyffuriau lleddfu poen yn ôl yr angen. Fodd bynnag, ni welsom dystiolaeth o

---

<sup>6</sup> System genedlaethol i nodi cleifion sâl iawn sy'n gwaethygu ac sydd angen gofal meddygol neu ofal nyrsio mwy dwys yw NEWS.

asesiad yn cael ei gynnal gan ddefnyddio adnodd asesu poen cydnabyddedig yn y sampl o ffeiliau gofal a arolygwyd. Cawsom wybod gan reolwr y ward fod y bwrdd iechyd yn datblygu adnodd asesu poen newydd a bod disgwyl i hwn gael ei roi ar waith ar y ward ym mis Ionawr 2020.

#### Yr hyn sydd angen ei wella

Mae'n rhaid i'r bwrdd iechyd gyflwyno adnodd asesu poen i'w ddefnyddio gan y staff ar y ward fel rhan o asesiad y claf a'r broses cynllunio gofal.

### Llywodraethu gwybodaeth a thechnoleg cyfathrebu

Roedd fframwaith llywodraethu gwybodaeth cadarn ar waith ac roedd y staff yn ymwybodol o'u cyfrifoldebau o ran cadw cofnodion cywir a chynnal cyfrinachedd cleifion.

Drwy archwilio cofnodion hyfforddiant, cadarnhawyd gennym fod staff wedi cael hyfforddiant ar lywodraethu gwybodaeth.

Dywedwyd wrthym fod gwaith yn mynd rhagddo i ddatblygu system rheoli cofnodion electronig i'w defnyddio ym mhob rhan o'r bwrdd iechyd.

### Cadw cofnodion

Gwelwyd bod nodiadau gofal cleifion yn cael eu cynnal a'u cadw'n dda, yn hawdd eu darllen ac yn adlewyrchu'r gofal a'r cymorth a ddarperir.

Roedd nodiadau gofal cleifion yn cael eu storio mewn troli wedi'i gloi, a oedd yn cael ei storio yn swyddfa'r nyrsys dan glo pan nad oedd yn cael ei ddefnyddio.

## Ansawdd rheolaeth ac arweinyddiaeth

*Ystyriwyd y ffordd y mae'r gwasanaethau yn cael eu rheoli a'u harwain ac a yw'r gweithle a'r diwylliant sefydliadol yn helpu i ddarparu gofal diogel ac effeithiol. Ystyriwyd hefyd y ffordd y mae'r gwasanaethau yn adolygu ac yn monitro eu perfformiad eu hunain yn erbyn y Safonau Iechyd a Gofal.*

Gwelsom drefniadau rheoli ac arwain da iawn ar lefel y ward, gyda'r staff yn sôn yn gadarnhaol am y cymorth y maent yn ei gael gan reolwr y ward.

Dywedodd y staff wrthym eu bod yn cael eu trin yn deg yn y gwaith a bod diwylliant agored a chefnogol. Dywedodd y staff wrthym hefyd eu bod yn ymwybodol o'r strwythur uwch-reoli yn y sefydliad a bod y cyfathrebu rhwng yr uwch-reolwyr a'r staff yn effeithiol ar y cyfan.

### Llywodraethu, arweinyddiaeth ac atebolrwydd

Nodwyd gennym fod systemau a phrosesau penodol iawn ar waith i sicrhau bod y bwrdd iechyd yn canolbwyntio ar wella ei wasanaethau'n barhaus. Roedd hyn yn cael ei gyflawni, yn rhannol, drwy raglen dreigl o archwiliadau a'i strwythur llywodraethu sefydledig a oedd yn galluogi aelodau enwebedig o staff i gyfarfod yn rheolaidd er mwyn trafod canlyniadau clinigol sy'n gysylltiedig â darparu gofal cleifion.

Yn ystod trafodaethau â'r staff, dywedwyd wrthym fod prosesau da, anffurfiol i oruchwylio a chefnogi'r staff o ddydd i ddydd ar waith ar y ward, ynghyd â chyfarfodydd staff ffurfiol rheolaidd a oedd yn cael eu cynnal yn rheolaidd, ac roedd cofnodion y cyfarfod ar gael ar gyfer y rhai nad oeddent yn gallu bod yn bresennol.

Gwelsom fod cyfathrebu mewnol da rhwng y tîm amlddisgyblaethol.

### Staff ac adnoddau

#### Y Gweithlu

Gwelsom fod tîm o staff cyfeillgar a phroffesiynol ar y ward, a oedd yn dangos ymrwymiad i roi gofal o ansawdd uchel i gleifion. Roedd y staff yn gallu disgrifio

eu rolau ac roeddent yn gyfarwydd ag anghenion gofal y cleifion roeddent yn gyfrifol amdanynt.

Gwelwyd copïau o rota'r staff a ddangosodd i ni fod cymysgedd sgiliau da ymhlith y staff ar ddyletswydd ar bob sifft. Gallai nifer y staff ar ddyletswydd amrywio o un sifft i'r llall; roedd yn dibynnu ar nifer y gwelyau oedd yn llawn a'r cleifion hynny yr oedd angen cymorth neu oruchwyliaeth unigol arnynt.

Roedd sawl swydd yn wag ar adeg yr arolygiad. Roedd rhaglen dreigl ar gyfer recriwtio staff ar waith. Fodd bynnag, roedd y bwrdd iechyd yn ei chael hi'n anodd recriwtio aelodau parhaol o staff. Roedd hyn i'w briodoli'n bennaf i leoliad yr ysbyty. O ganlyniad, roedd y gwasanaeth yn dibynnu'n fawr ar staff asiantaeth. Roedd trefniadau ar waith i sicrhau bod yr un aelodau o staff asiantaeth yn cael eu pennu i weithio ar y ward, lle y bo'n bosibl. Roedd hyn yn sicrhau lefel o ofal parhaus, gan alluogi'r staff i ddatblygu cydberthnasau gwaith cryfach.

Yn ystod ein harolygiad, gwnaethom siarad â nifer o staff o bob disgyblaeth, a gwnaethom ddsbarthu holiaduron AGIC i'r staff er mwyn cael gwybod am yr amodau gwaith a deall eu barn ar ansawdd y gofal a ddarperir i gleifion. Daeth chwe holiadur wedi'u cwblhau i law.

Nododd y rhan fwyaf o'r staff yn yr holiaduron eu bod wedi ymgymryd â dysgu a datblygu, ym maes Iechyd a Diogelwch, Diogelwch Tân, Rheoli Heintiau, y Ddeddf Galluedd Meddyliol/Trefniadau Diogelu wrth Amddifadu o Ryddid, Preifatrwydd ac Urddas a Dementia, yn ystod y 12 mis diwethaf.

Dywedodd y rhan fwyaf o'r staff a gwblhaodd holiadur fod yr hyfforddiant neu'r cyfleoedd dysgu a datblygu yn eu helpu i wneud eu gwaith yn fwy effeithiol, ac yn eu helpu i gael y wybodaeth ddiweddaraf am ofynion proffesiynol a darparu profiad gwell i gleifion.

Roedd cofnodion hyfforddiant y staff a welsom yn ystod yr arolygiad yn dangos bod cydymffurfiaeth â hyfforddiant gorfodol yn fwy na 80%. Roedd tystiolaeth hefyd i ddangos bod trefniadau wedi'u gwneud i staff gael unrhyw hyfforddiant sy'n weddill y mae angen iddynt ei gael.

Dywedodd pob aelod o'r staff a gwblhaodd holiadur wrthym ei fod wedi cael arfarniad, adolygiad blynyddol neu adolygiad datblygu o'i waith yn ystod y 12 mis diwethaf. Dywedodd pawb fod eu hanghenion dysgu neu ddatblygu yn cael eu nodi fel rhan o'r broses hon, a bod eu rheolwr bob amser yn eu cefnogi i ddiwallu'r anghenion hyn.



Dywedodd yr holl ymatebwyr eu bod yn gallu gwneud awgrymiadau i wella'r gofal a roddir i'r cleifion, a'u bod yn teimlo eu bod yn cael eu cynnwys mewn penderfyniadau a oedd yn effeithio arnynt.

Dywedodd y rhan fwyaf o'r staff eu bod yn gallu bodloni'r holl ofynion croes ar eu hamser yn y gwaith a bod ganddynt ddigon o ddeunyddiau, cyflenwadau a chyfarpar i wneud eu gwaith. Yn ogystal, dywedwyd bod digon o staff yn y sefydliad i'w galluogi i wneud eu gwaith yn iawn. Fodd bynnag, dywedodd un aelod o'r staff nad oedd byth digon o staff:

*“Gormod o reolwyr. Dim digon o staff profiadol yn rhoi gofal ar y llawr gwaelod.”*

Dywedodd yr holl aelodau o staff a gwblhaodd holiadur eu bod yn fodlon ar ansawdd y gofal roeddent yn gallu ei roi i'r cleifion a bod y cleifion a/neu eu perthnasau yn cael eu cynnwys mewn penderfyniadau am eu gofal. Roeddent hefyd yn cytuno bod preifatrwydd ac urddas y cleifion yn cael eu cynnal bob amser a bod annibyniaeth y cleifion yn cael ei hybu.

Dywedodd y rhan fwyaf o'r staff fod y sefydliad yn annog gwaith tîm a bod y sefydliad yn gefnogol a bod diwylliant o fod yn agored a dysgu yn y bwrdd iechyd.

Yn yr holiaduron, dywedodd y staff mai gofalu am y cleifion yw prif flaenoriaeth y sefydliad, a bod y sefydliad yn gweithredu ar bryderon a godir gan gleifion. Roedd y rhan fwyaf o'r staff yn cytuno y byddent yn argymhell y sefydliad fel lle i weithio, gan ddweud y byddent yn hapus â safon y gofal a ddarperir gan y sefydliad pe byddai angen triniaeth ar ffrind neu berthynas.

Gofynnwyd cwestiynau i'r staff am eu rheolwr uniongyrchol, ac roedd yr adborth yn gadarnhaol ar y cyfan. Ymysg y sylwadau roedd y canlynol:

*“Ni allwn ofyn am gymorth gwell gan fy rheolwr.”*

Dywedodd y staff fod eu rheolwr yn annog ei staff i weithio fel tîm, ac y gellid dibynnu ar eu rheolwr i'w helpu gyda thasg anodd yn y gwaith.

Dywedodd y staff a gwblhaodd holiadur eu bod yn gwybod pwy oedd yr uwch-reolwyr yn y sefydliad, a dywedodd y mwyafrif fod cyfathrebu effeithiol rhwng yr uwch-reolwyr a'r staff.

Dywedodd y rhan fwyaf o'r staff wrthym yn yr holiadur fod eu swydd yn dda i'w hiechyd a bod eu rheolwr uniongyrchol a'r sefydliad yn gyffredinol yn cymryd camau cadarnhaol o ran iechyd a llesiant. Ymysg y sylwadau roedd y canlynol:

*"Mae seibiannau llesiant yn cael eu cynnal ar y ward. Mae'r staff fel arfer yn dod at ei gilydd i gael sgwrs a phaned o de."*

*"Mae fy amser byr ar y ward hon yn fy ngalluogi i wneud sylwadau ar y cymorth gwych a gynigir i mi gan fy nyrs â chyfrifoldeb a'r staff asiantaeth rhagorol yr wyf wedi gweithio gyda nhw. Rwy'n teimlo'n gyfforddus iawn ac yn teimlo fy mod yn cael fy ngwerthfawrogi yn barod. Am ward hyfryd."*

Dyweddodd un aelod o'r staff mewn ymateb i'r holiadur ei fod wedi gweld camgymeriadau, camgymeriadau a fu bron â digwydd neu ddigwyddiadau yn ystod y mis diwethaf a allai fod wedi niweidio staff, a'i fod wedi gweld camgymeriadau, camgymeriadau a fu bron â digwydd neu ddigwyddiadau a allai fod wedi niweidio cleifion. Roedd yr holl staff yn cytuno bod eu sefydliad yn eu hannog i roi gwybod am gamgymeriadau, camgymeriadau a fu bron â digwydd neu ddigwyddiadau, ac y byddai'r sefydliad yn ymdrin â chamgymeriad, camgymeriad a fu bron â digwydd neu ddigwyddiad yn gyfrinachol ac na fyddai'n rhoi'r bai ar y bobl sy'n rhan o ddigwyddiadau o'r fath nac yn eu cosbi.

Dyweddodd y staff wrthym eu bod yn cael gwybod am gamgymeriadau, camgymeriadau a fu bron â digwydd a digwyddiadau yn y sefydliad, a'u bod yn cael adborth ar newidiadau a wneir mewn ymateb i gamgymeriadau, camgymeriadau a fu bron â digwydd a digwyddiadau.

Dyweddodd yr holl aelodau o staff a gwblhaodd yr holiadur pe byddent yn poeni am ymarfer clinigol anniogel, y byddent yn gwybod sut i roi gwybod amdano, a dywedodd pob un y byddent yn teimlo'n ddiogel wrth godi pryderon am ymarfer clinigol anniogel. Roedd y rhan fwyaf yn teimlo'n hyderus y byddai eu sefydliad yn mynd i'r afael â'u pryderon ar ôl iddynt roi gwybod amdanynt.

Dyweddodd pob un o'r ymatebwyr fod y sefydliad yn gweithredu'n deg o safbwynt datblygiad gyrfa neu ddyrchafu, ac nad oedd unrhyw wahaniaethu ar sail cefndir ethnig, rhywedd, crefydd, cyfeiriadedd rhywiol, anableded nac oedran.

#### Yr hyn sydd angen ei wella

Mae'n rhaid i'r bwrdd iechyd barhau â'r cynllun ac ymdrechion i recriwtio staff parhaol.

## 4. Beth nesaf?

Lle rydym wedi nodi gwelliannau a phryderon uniongyrchol yn ystod ein harolygiad y mae gofyn i'r gwasanaeth weithredu yn eu cylch, nodir y rhain yn y ffyrdd canlynol o fewn atodiadau'r adroddiad hwn (lle y bônt yn gymwys):

- Atodiad A: Yn cynnwys crynodeb o unrhyw bryderon am ddiogelwch cleifion a gafodd eu huwchgfyfeirio a'u datrys yn ystod yr arolygiad
- Atodiad B: Yn cynnwys unrhyw bryderon uniongyrchol am ddiogelwch cleifion lle rydym yn mynnu bod y gwasanaeth yn cwblhau cynllun gwella uniongyrchol gan ddweud wrthym am y camau brys y mae'n eu cymryd
- Atodiad C: Yn cynnwys unrhyw welliannau eraill a nodwyd yn ystod yr arolygiad lle rydym yn mynnu bod y gwasanaeth yn cwblhau cynllun gwella gan ddweud wrthym am y camau mae'n eu cymryd i fynd i'r afael â'r meysydd hyn

Dylai'r cynlluniau gwella wneud y canlynol:

- Nodi'n glir pryd a sut yr eir i'r afael â'r canfyddiadau a nodwyd, gan gynnwys amserlenni
- Sicrhau bod y camau a gymerir mewn ymateb i'r materion a nodwyd yn benodol, yn fesuradwy, yn gyflawnadwy, yn realistig ac wedi'u hamseru
- Cynnwys digon o fanylion er mwyn rhoi sicrwydd i AGIC a'r cyhoedd yr eir i'r afael â'r canfyddiadau a nodwyd yn ddigonol.

O ganlyniad i ganfyddiadau'r arolygiad hwn, dylai'r gwasanaeth wneud y canlynol:

- Sicrhau nad yw'r canfyddiadau yn systemig ar draws rhannau eraill o'r sefydliad ehangach
- Rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf i AGIC pan fydd camau yn dal i fod heb eu cymryd a/neu ar y gweill, er mwyn cadarnhau pan fyddant wedi cael eu cwblhau.

Caiff y cynllun gwella, ar ôl cytuno arno, ei gyhoeddi ar wefan AGIC.

## 5. Sut rydym yn arolygu ysbytai

Gallwn ddefnyddio amrywiaeth o ddulliau gweithredu wrth arolygu ysbytai'r GIG, gan gynnwys:

- Arolygiad dwys o un ward: cynhaliwn arolygiad trylwyr a manwl o un ward
- Arolygiad o sawl ward: ymwelwn â nifer o wardiau ac adrannau yn yr un ysbyty er mwyn nodi materion neu themâu a all fod yn gymwys i'r ysbyty cyfan
- Arolygiad o sawl ysbyty: ymwelwn â nifer o ysbytai yn yr un bwrdd iechyd er mwyn asesu'r broses o lywodraethu a chyflenwi gwasanaethau cyfan.

Fel arfer, ni roddir rhybudd pan arolygir ysbytai. Byddwn bob amser yn ceisio cynnal arolygiadau dirybudd am fod hyn yn ein galluogi i weld gwasanaethau fel maent yn gweithredu fel arfer. Nid yw'r gwasanaeth yn cael unrhyw rybudd ymlaen llaw o arolygiad dirybudd.

Rhoddir adborth i gynrychiolwyr gwasanaethau ar ddiwedd yr arolygiad, mewn ffordd sy'n cefnogi dysgu, datblygiad a gwelliant ar lefel weithredol a strategol.

Rydym yn edrych ar y ffordd y mae ysbytai yn bodloni [Safonau Iechyd a Gofal 2015](#). Rydym yn ystyried safonau a chanllawiau proffesiynol eraill fel y bo'n gymwys.

Mae'r arolygiadau hyn yn rhoi cipolwg ar y safonau gofal o fewn ysbytai.

Ceir manylion pellach am [sut mae AGIC yn arolygu'r GIG](#) ar ein gwefan.

## Atodiad A – Crynodeb o'r pryderon a gafodd eu datrys yn ystod yr arolygiad

Mae'r tabl isod yn crynhoi'r pryderon a nodwyd ac a gafodd eu huwchgyfeirio yn ystod ein harolygiad. Oherwydd yr effaith/effaith bosibl ar ofal a thriniaeth y cleifion, roedd angen rhoi sylw i'r pryderon hyn ar unwaith, yn ystod yr arolygiad.

<b>Pryderon uniongyrchol a nodwyd</b>	<b>Effaith/effaith bosibl ar ofal a thriniaeth y cleifion</b>	<b>Sut y cafodd y pryder ei uwchgyfeirio gan AGIC</b>	<b>Sut y cafodd y pryder ei ddatrys</b>
Ni nodwyd unrhyw bryderon roedd angen ymdrin â nhw ar unwaith yn ystod yr arolygiad hwn.			

## Atodiad B – Cynllun gwella uniongyrchol

**Ysbyty:** Bronllys

**Ward/adran:** Llewellyn

**Dyddiad arolygu:** 29 a 30 Hydref 2019

Mae'r tabl isod yn cynnwys unrhyw bryderon uniongyrchol am ddiogelwch cleifion a nodwyd yn ystod yr arolygiad lle rydym yn mynnu bod y gwasanaeth yn cwblhau cynllun gwella uniongyrchol gan ddweud wrthym am y camau brys y mae'n eu cymryd.

Yr hyn sydd angen ei wella'n uniongyrchol	Safon	Cam gweithredu'r gwasanaeth	Swyddog cyfrifol	Amserlen
Ni nodwyd unrhyw faterion uniongyrchol ynglŷn â sicrwydd yn ystod yr arolygiad hwn.				

Rhaid i'r adran ganlynol gael ei chwblhau gan gynrychiolydd y gwasanaeth sy'n bennaf cyfrifol ac atebol am sicrhau y caiff y cynllun gwella ei roi ar waith.

**Cynrychiolydd y gwasanaeth:**

**Enw (priflythrennau):**

**Teitl swydd:**

**Dyddiad:**

## Atodiad C – Cynllun gwella

**Ysbyty: Bronllys**

**Ward/adran: Llewellyn**

**Dyddiad arolygu: 29/30 Hydref 2019**

Mae'r tabl isod yn cynnwys unrhyw welliannau eraill a nodwyd yn ystod yr arolygiad lle rydym yn gofyn i'r gwasanaeth gwblhau cynllun gwella sy'n nodi'r camau gweithredu y mae'n eu cymryd i fynd i'r afael â'r meysydd hyn.

Yr hyn sydd angen ei wella	Safon	Cam gweithredu'r gwasanaeth	Swyddog cyfrifol	Amserlen
<b>Ansawdd profiad y claf</b>				
Mae'n rhaid i'r bwrdd iechyd drwsio fframiau'r ffenestri yn y coridor sy'n arwain at y ward	4.1 Gofal Gydag Urddas	Fframiau ffenestr pren pwrpasol newydd i gael eu gweithgynhyrchu.	Pennaeth yr adran Ystadau a Gwaith	Yn cael eu gosod yn ystod yr wythnos sy'n dechrau 2 Mawrth 2020
Mae'n rhaid i'r bwrdd iechyd drwsio'r ffenestri yn yr heulfan.		Newidiwyd pob dolen uPVC y ffenestri ar 23/1/20. Mae angen Contractwr Arbenigol i roi adroddiad ar fecanwaith drws sy'n llithro. Adroddiad i gael ei ddarparu erbyn 31/1/20, a'r holl waith a	Pennaeth yr adran Ystadau a Gwaith	14 Chwefror 2020

Yr hyn sydd angen ei wella	Safon	Cam gweithredu'r gwasanaeth	Swyddog cyfrifol	Amserlen
		nodir i gael ei drefnu ar ôl i'r adroddiad ddod i law.		
Mae'n rhaid i'r bwrdd iechyd sicrhau bod tir yr ysbyty yn cael ei gynnal a'i gadw'n addas.		Tocio'r isdyfiant yn yr ardal yn ôl a'i glirio.	Pennaeth yr adran Ystadau a Gwaith	31 Ionawr
Mae'n rhaid i'r bwrdd iechyd sicrhau bod gwybodaeth ar gyfer cleifion ar gael yn Gymraeg.	4.2 Gwybodaeth i gleifion	Mae cyfieithiad Cymraeg o 'Know How You Are Doing Boards' ar gael, dylai'r ward gael gafael ar hyn i gael cyngor.	Prif Nyrs y Ward	10 Chwefror 2020
Mae'n rhaid i'r bwrdd iechyd gymryd camau i sicrhau, lle y bo'n briodol, fod perthnasau yn cael gwybod am newidiadau o ran cyflwr a/neu ddarpariaeth gofal y claf, os na allant fod yn bresennol yn ystod ymweliadau gan y meddyg.	3.2 Cyfathrebu'n effeithiol	Gellir gwneud trefniadau i berthnasau gwrdd â'r prif feddyg.  Prif Nyrs y Ward i weithredu clinig cyfathrebu agored, lle y gall perthnasau ddod a thrafod â'u haelod o'r teulu y slotiau amser sydd ar gael 4 diwrnod yr wythnos.	Prif Nyrs y Ward  Prif Nyrs y Ward	Cwblhawyd  Cwblhawyd
Mae'n rhaid i'r bwrdd iechyd barhau i ymgysylltu â'r awdurdod lleol gyda'r nod o sicrhau bod mwy o ddarpariaeth gofal cymdeithasol addas ar gael er mwyn hwyluso'r broses o ryddhau cleifion o'r ysbyty yn amserol.	5.1 Mynediad amserol	Penodwyd arweinydd clinigol ar gyfer gofal heb ei drefnu gan Fwrdd Iechyd Addysgu Powys er mwyn cefnogi llif y cleifion ym mis Gorffennaf 2019. Mae cyswllt dyddiol â Gwasanaethau	Arweinydd ar gyfer gofal heb ei drefnu	Ar waith



Yr hyn sydd angen ei wella	Safon	Cam gweithredu'r gwasanaeth	Swyddog cyfrifol	Amserlen
		<p>Cymdeithasol er mwyn cydweithio i hwyluso'r broses o ryddhau cleifion yn amserol a lleihau nifer y cleifion y mae Oedi wrth Drosglwyddo eu Gofal sydd ar y ward ar hyn o bryd.</p> <p>Gweithwyr Cymdeithasol sydd wedi'u lleoli mewn ysbyty a ddechreuodd ar 3 Rhagfyr 2019 i brofi ffyrdd newydd o weithio am 4 mis.</p> <p>Mae'r Rheolwr Arweiniol Gofal heb ei Drefnu yn cydgysylltu â chydweithwyr yn y trydydd sector a'r awdurdod lleol ar lefel strategol gyda'r nod o sicrhau bod mwy o ddarpariaeth gofal cymdeithasol addas ar gael.</p> <p>Mae'r Tîm Llif Cleifion yn cydgysylltu â phob ward bob dydd er mwyn trafod trefniadau rhyddhau'r cleifion a chynhelir ymarfer cyfrif gwelyau bob dydd y gwahoddir cydweithwyr yr awdurdod lleol iddo.</p> <p>Cynhelir ymarfer cyfrif cleifion y mae Oedi wrth Drosglwyddo eu Gofal ag</p>		

Yr hyn sydd angen ei wella	Safon	Cam gweithredu'r gwasanaeth	Swyddog cyfrifol	Amserlen
		<p>uwch-reolwyr yn yr awdurdod lleol ddwywaith yr wythnos.</p> <p>Mae'r Uwch-nyrs ar gyfer Ilif cleifion yn mynychu Fforwm y Prif Nyrsys Ward gan ddarparu gwybodaeth i gefnogi'r broses o ryddhau'r cleifion.</p>		
Mae'n rhaid i'r bwrdd iechyd sicrhau bod y staff yn gyson â'r broses ar gyfer asesiadau galluedd meddyliol a'u bod yn cwblhau dogfennaeth briodol ar gyfer hyn.	6.2 Hawliau pobl	<p>Hyfforddiant ar y Ddeddf Iechyd Meddwl i gael ei ddatblygu yn gorfforaethol ar gyfer y staff sy'n gweithio mewn Gwasanaethau Oedolion.</p> <p>Mae hyfforddiant e-ddysgu Lefel 1 a 2 ar y Ddeddf Galluedd Meddyliol ar gael i'r staff. Gwaith yn mynd rhagddo ar y Gweithlu a Datblygu Sefydliadol i ychwanegu gofynion hyfforddiant gorfodol ar gyfer Nyrsys Cofrestredig.</p> <p>Mae'r staff yn cael eu hatgoffa a'u hannog i wneud eu hyfforddiant gorfodol.</p> <p>Datblygwyd poster briffio 7 munud ar y Ddeddf Galluedd Meddyliol er mwyn cefnogi'r staff – lanswyd hwn yn ystod yr wythnos Diogelu genedlaethol ym mis Tachwedd, ac fe'i trafodwyd a'i rannu â</p>	<p>Pennaeth Diogelu</p> <p>Prif Nyrs y Ward</p> <p>Prif Nyrs y Ward</p> <p>Prif Nyrs y Ward</p>	<p>31 Ionawr 2020</p> <p>31 Ionawr 2020</p> <p>Cwblhawyd</p> <p>Cwblhawyd</p>

Yr hyn sydd angen ei wella	Safon	Cam gweithredu'r gwasanaeth	Swyddog cyfrifol	Amserlen
		phrif nyrsys ward yn y Fforwm Prif Nyrsys ym mis Tachwedd 2019.		
<b>Darparu gofal diogel ac effeithiol</b>				
Mae'n rhaid i'r bwrdd iechyd sicrhau nad yw cadeiriau olwyn yn cael eu storio yn y coridor sy'n arwain at y ward.	2.1 Rheoli risg a hybu iechyd a diogelwch	Symud cadeiriau olwyn i ardal briodol.	Prif Nyrs y Ward	Cwblhawyd
Mae'n rhaid i'r bwrdd iechyd sicrhau bod asesiadau risg amgylcheddol cyffredinol yn cael eu cynnal yn rheolaidd.		Mae Asesiad Risg cyffredinol wedi cael ei ddatblygu a dylid ei ddefnyddio'n rheolaidd.	Prif Nyrs y Ward	Cwblhawyd
Mae'n rhaid i'r bwrdd iechyd sicrhau nad yw eitemau brwnt o gyfarpar yn cael eu storio gydag eitemau glân er mwyn lleihau'r risg o groes-heintio.	2.4 Atal a Rheoli Heintiau a Dihalogi	Mae'r storfa wedi cael ei diwygio ac maent wedi cael gwared ar yr hen fatres nad oedd yn addas mwyach.	Prif Nyrs y Ward	Cwblhawyd
Mae'n rhaid i'r bwrdd iechyd lunio polisi er mwyn cefnogi cleifion i hunanfeddyginiaethu.	2.6 Rheoli Meddyginiaethau	Mae'r polisi meddyginiaethau drafft newydd sy'n aros i gael ei gymeradwyo yn cefnogi cleifion i hunanfeddyginiaethu.  Mae angen gwneud rhagor o waith mewn perthynas â mynd i'r afael â galluedd	Pennaeth Rheoli Meddyginiaethau	Cymeradwyo'r polisi erbyn mis Mawrth 2020

Yr hyn sydd angen ei wella	Safon	Cam gweithredu'r gwasanaeth	Swyddog cyfrifol	Amserlen
		fferyllfa ar lefel ward er mwyn cefnogi'r broses o gefnogi cleifion i hunanfeddyginiaethu.		
Mae'n rhaid i'r bwrdd iechyd gyflwyno adnodd asesu poen i'w ddefnyddio gan y staff ar y ward fel rhan o asesiad y claf a'r broses cynllunio gofal.	3.1 Gofal Diogel a Chlinigol Effeithiol	Mae adnodd asesu risg Poen Cymru Gyfan wedi cael ei gyflwyno ledled Powys ym mis Ionawr 2020 fel rhan o brosiect E-ddogfennau Nyrzio.	Pennaeth Nyrzio	Ionawr 2020
Ansawdd rheolaeth ac arweinyddiaeth				
Mae'n rhaid i'r bwrdd iechyd barhau â'i ymdrechion i recriwtio staff parhaol.	7.1 Y Gweithlu	<p>Mae gan Fwrdd Iechyd Addysgu Powys Fframwaith Recriwtio a Chadw ar waith. Defnyddio dull amlddisgyblaethol wrth ymdrin ag ymarferion recriwtio ac ymgysylltu â Phrifysgolion, gan hysbysebu drwy'r cyfryngau cymdeithasol a'r wasg leol/genedlaethol.</p> <p>Mae cynigion Ymddeol a Dychwelyd a Dychwelyd i Ymarfer yn cael eu cynnig gan y Bwrdd Iechyd.</p> <p>Parhau i gefnogi cyfleoedd addysg Gweithwyr Cymorth Gofal Iechyd i "ddatblygu ein cyfleoedd ein hunain" gan</p>	Pennaeth y Gweithlu	Gwaith yn parhau

Yr hyn sydd angen ei wella	Safon	Cam gweithredu'r gwasanaeth	Swyddog cyfrifol	Amserlen
		alluogi Gweithwyr Cymorth Gofal Iechyd i ddefnyddio eu hyfforddiant nyrsys eu hunain.		

Rhaid i'r adran ganlynol gael ei chwblhau gan gynrychiolydd y gwasanaeth sy'n bennaf cyfrifol ac atebol am sicrhau y caiff y cynllun gwella ei roi ar waith.

### Cynrychiolydd y gwasanaeth

**Enw (priflythrennau):** Nigel Broad

**Swydd:** Rheolwr Gwasanaethau Cymunedol

**Dyddiad:** 22 Ionawr 2020